

# PREGETH

## YMGYNNULL O AMGYLCH GAIR DUW

Sut all y Beibl adnewyddu pobl Dduw ar ôl cloi (Nehemeia 8.1–12)

### CYFLWYNIAD

Mae ein byd wedi wynebu lefelau digynsail o aflonyddwch yn ddiweddar. Ar adegau, mae wedi bod fel byw ar set ffilm apocalyptaidd. Mae'r coronafeirws wedi ein hatgoffa o'n breuder. Nid ydym yn rheoli'r bydysawd gymaint ag yr oeddem yn ei feddwl ac mae angen ein gilydd yn fwy nag yr oeddem yn ei sylweddoli. Nawr, wrth inni geisio ailadeiladu yn dilyn cyfnod o aflonyddwch mawr a gyda llawer o ansicrwydd yn dal i fodoli, sut all pobl Dduw brofi adnewyddiad ysbrydol gyda'n gilydd? A ble allwn ni ddod o hyd i'r adnoddau sydd eu hangen arnom i wynebu byd newydd dewr gyda gwroldeb?

Mae'r Sul y Beibl hwn yn gyfle i fyfyrwyr ar y cwestiynau hyn trwy ymgynnull o amgylch y Beibl. Rwyf am ganolbwyntio ar stori benodol a ddaliwyd yn llyfr Nehemeia yn yr Hen Destament. Wrth i mi ystyried y darn hwn, mae wedi teimlo mor berthnasol i'n cyd-destun. Yn ganolog iddo mae stori am Israel yn gwella ar ôl cyfnod o aflonyddwch mawr ac yn profi adnewyddiad ysbrydol trwy air Duw.

### CEFNDIR ESRA a NEHEMEIA

Yn gyntaf, gadewch inni ystyried y stori gefn sy'n saernio Nehemeia 8 yn ei chyd-destun gwreiddiol. Dyma'r bumed ganrif CC ac mae'r Israeliaid wedi bod trwy brofiad trawmatig alltudiaeth yn ddiweddar. Ganrif neu ddwy yn ôl, dinistriodd y Babiloniaid Jerwsalem a gorfodi mwyafrif ei thrigolion allan o'u mamwlad. Wrth afonydd Babilon eisteddasant i lawr ac wylo mewn gwlad ddiethr. Bu'r alltudiaeth ym Mabilon yn brofiad anhygoel o galed. Fodd bynnag, ymhen 70 mlynedd, cymerodd y Persiaid yr awenau oddi wrth y Babiloniaid a chaniatáu i'r alltudion dychwelyd adref. Felly mewn sawl ton, dychwelodd yr Israeliaid i

Jerwsalem a dechrau ailadeiladu eu hen fywydau. Os oedd alltudiaeth yn anodd, roedd ceisio dychwelyd i normal newydd yng nghanol cymaint o ansicrwydd hyd yn oed yn anoddach. Efallai bod hynny'n swnio'n gyfarwydd? Roedd y cyfnod cloi yn anodd ond mae ailadeiladu ar yr ochr arall yn teimlo'n fwy heriol fyth. Fodd bynnag, pan ddychwelodd yr arweinydd mawr Nehemeia i Jerwsalem llwyddodd i gymell y trigolion i weithredu, ailadeiladwyd waliau'r ddinas a dechreuodd y bobl deimlo'n ddiogel eto. Cymerwch galon. Gyda Duw ar ein hochr, gall y rwbel fod yn ddeunydd crai a gall yr adfail deimlo fel cartref unwaith eto.

Gyda'r adeiledd corfforol wedi'i ailgodi, dyma ble mae'r cymeriad allweddol yn ein darn yn dod i mewn. Dychwelodd Esra i Jerwsalem hefyd a gweithio gyda Nehemeia. Roedd set sgiliau wahanol ganddo. Roedd Nehemeia yn arweinydd gweledigaethol. Roedd Esra yn athro Beiblaidd. Yn Nehemeia 8, Esra sy'n cymryd yr awenau wrth i bobl Dduw ailgynnull o amgylch gair Duw:

#### NEHEMEIA 8.1–10 (detholiad, BCND)

*Ymgasglodd yr holl bobl fel un yn y sgwâr sydd o flaen Porth y Dŵr. Yna dywedasant wrth Esra yr ysgrifennydd am ddod â llyfr cyfraith Moses, sef yr un a orchynnodd yr ARGLWYDD i Israel. 2Ar y dydd cyntaf o'r seithfed mis daeth Esra yr offeiriad â'r gyfraith o flaen y gynulleidfa, yn wŷr a gwragedd, pawb a fedrai ddeall yr hyn a glywai. 3Darllenodd rannau ohoni, o doriad gwawr hyd hanner dydd, yng ngŵydd y gwŷr a'r gwragedd oedd yn medru deall, gan wynebu'r sgwâr o flaen Porth y Dŵr; a gwrandawodd pawb yn astud ar lyfr y gyfraith. 7Yr oedd y Lefiaid ... yn egluro'r gyfraith i'r bobl, a hwythau'n aros yn eu lle. 8Yr oeddent yn darllen o lyfr cyfraith Dduw, ac yn ei gyfieithu a'i esbonio fel bod pawb yn deall y darlleniad.*

9Yna dywedodd Nehemeia y llywodraethwr ac Esra yr offeiriad a'r ysgrifennydd, a'r Lefiaid oedd yn hyfforddi'r bobl, wrth yr holl bobl, "Y mae heddiw yn ddydd sanctaidd i'r ARGLWYDD eich Duw; peidiwch â galaru nac wylo." Oherwydd yr oedd pawb yn wylo wrth wrando ar eiriau'r gyfraith. 10Yna fe ddywedodd wrthynt, "Ewch, bwyteuwch ddanteithion ac yfwch win melys a rhannwch â'r sawl sydd heb ddim, oherwydd mae heddiw yn ddydd sanctaidd i'n Harglwydd; felly, peidiwch â galaru, oherwydd llawenhau yn yr ARGLWYDD yw eich nerth."

Mae'r darn hwn yn dangos tair ffordd y mae'r Beibl yn galluogi adnewyddiad ysbrydol:

## 1. MAE'R BEIBL YN DDYFRFAN DWYFOL Nehemeia 8:1-3

*Ydych chi erioed wedi gweld anifeiliaid yn ymgynnull wrth ddyfrfan?*

*[Hanesyn personol] Yn ddiweddar cafodd ein teulu y fraint o ymweld â Kenya a mwynhau ychydig ddyddiau ar saffari. Yn gynnar un bore gwelsom amrywiaeth eang o anifeiliaid yn cyrraedd dyfrfan i yfed. Daeth ffynhonnell H2O yn fan ymgynnull ar gyfer amrywiaeth rhyfeddol o greaduriaid.*

### • Mae'r Beibl ar gyfer holl bobl Dduw

Ar ôl trawma alltudiaeth a blinder ailadeiladu Jerwsalem, roedd syched ar bobl Israel. Roedd angen iddyn nhw yfed eto o wirionedd gair Duw. Felly dyma nhw'n gofyn i Esra ddod â Llyfr Moses' allan a'i ddarllen iddyn nhw. Nid ydym yn siŵr pa rannau o'r Torah a ddarllenodd. Deuteronomium efallai? Y naill ffordd neu'r llall, darllenodd Esra o Ysgrhythurau cysegredig Israel a gwrandawsant yn awchus. A wnaethoch chi sylwi pwy fynychodd y darlleniad cyhoeddus hwn o'r Ysgrhythur a ble wnaethon nhw ymgynnull? Yn lle cyfarfod yn y Deml a gafodd ei hailadeiladu lle mai dim ond gwrywod lldewig a allai ddod i mewn, fe ddaethant at ei gilydd mewn sgwâr cyhoeddus fel y gallai pawb ddod i wrando - dynion a merched, hen ac ifanc, llythrennog ac anlythrennog. Prin iawn yn y Beibl mae arddangosfa o'r fath amrywiaeth a'r Beibl a ddarparodd y man ymgynnull.

### • Mae'r Beibl ar gyfer yr holl ddynoliaeth

Yn rhy aml rydyn ni'n gosod cyfyngiadau diangen o amgylch y Beibl. Rydyn ni'n ei osod fel llyfr technegol i offeiriad neu lyfr ysgolheigaidd i academyddion. Fodd bynnag, mae'r Beibl yn ddyfrfan dwyfol sy'n rhoi ystyr, cryfder a gobaith i eneidiau sychedig. Fel teuluoedd, gallwn ymgynnull o amgylch y Beibl - mae ar gyfer oedolion a phlant. Fel eglwysi gallwn ymgynnull o amgylch y Beibl - mae'n siarad gwirionedd p'un ai ar Zoom neu mewn ystafell gyda'n gilydd. Mae'n ffynhonnell doethineb, cysur a gobaith i'r holl ddynoliaeth.

*[Hanesyn personol]*

*Aeth fy ngwraig allan am ddiwedd yn ddiweddar gyda ffrindiau nad oeddent yn Gristnogion. Wrth iddynt siarad, daeth yn amlwg fod y cyfnod clo wedi bod yn drawmatig i un neu ddau ohonynt. Wrth i'r emosionau dywallt, roedd fy ngwraig yn gallu cynnig gweddi ac yn ddiweddarach bu iddi yrru neges destun gydag adnod o'r Beibl fel ffynhonnell cryfder.*

*Rhaid i ni beidio â gadael y Beibl dan glo yn y Deml. Yn fwy nag erioed mae angen i ni gynnig y Beibl i'n byd sychedig. Mae hynny'n dechrau trwy ganoli ein bywydau ein hunain ar y Beibl. Beth am wahodd eraill i'w ddarllen gyda'n gilydd fel y gwnaeth y bobl gydag Esra? Os ydym am gael ein hadnewyddu'n ysbrydol trwy gyfnodau heriol mae angen gair Duw arnom.*

**Cwestiwn cymhwyso:** Sut allwn ni ganoli ein hunain ar y Beibl a gwahodd eraill i ymuno â ni wrth y dyfrfan?

## 2. MAE'R BEIBL YN STORI FWY SY'N RHOI GOBAITH Nehemeia 8:5-8

*[Hanesyn personol]*

*Ychydig amser yn ôl, cwrddais â rhai arweinwyr o bob rhan o'r Dwyrain Canol. Rhannodd un ohonynt yn deimladwy am ei waith gyda ffoaduriaid. Disgrifiodd un achlysur pan gyrhaeddodd llwyth o ddillad. Ar ôl trefnu'r dillad yn y warws, rhoddodd hefyd bentwr o Feibla*

*Arabeg a Farsi wrth eu hymyl. Pan wnaethant agor y drysau ac wrth i'r gair ledaenu, bu rhuthr mawr ... nid ar gyfer y dillad ond ar gyfer y Beiblau! Roedd y ffoaduriaid yn gwybod pan fydd bywyd yn galed ac yn fregus, mae'r Beibl yn ffynhonnell unigryw o obaith.*

- **Mae'r Beibl yn helpu gwneud synnwyr ohonom**

Wrth i'r Israeliaid wrando ar Esra yn darllen y Torah, roedd yn amlwg yn brofiad pwerus. Dychmygwch yr olygfa. Mae Nehemeia 8 yn ei gofnodi mewn ffordd sinematig. Safodd Esra ar blatfform mawr wedi'i adeiladu yn arbennig ar gyfer yr achlysur. Ymgasglodd miloedd o'i gwmpas ac wrth iddo ddarllen o 'Lyfr Moses', gallech fod wedi clywed pin yn disgyn wrth i'r hen a'r ifanc wrando'n astud ar yr Ysgrhythurau. Beth oedd mor gyfareddol? Wedi'r cyfan, i ni mae mwy o hyd i'w wyllo ar Netflix. Pam traferthu gyda'r Beibl? Efallai mai'r allwedd i Israel ac i ni yw bod y Beibl yn ein helpu i deimlo'n rhan o stori fwy sy'n gwneud synnwyr o'n profiadau. Wrth i Esra ddarllen hanes Israel, gan gynnwys Duw yn achub Israel rhag caethwasiaeth yn yr Aifft, gwneud cyfamod â nhw ar Fynydd Sinai a'u datgan yn 'drysor arbennig' iddo (Exodus 19), gofalu amdany'n nhw yn yr anialwch pan oedden nhw'n fregus, nid dim ond hen hanes llychlyd oedd hwn. Eu stori nhw oedd hi. Wrth i Esra ddarllen darnau o'r Beibl, roedd yr Israeliaid yn teimlo'n rhan o rywbeth solet a sicr. Fe roddodd hyder iddyn nhw wynebu eu heriau gan wybod y byddai Duw yn ffyddlon trwy'r cyfan.

Dyma pam mae angen y Beibl arnom. Wrth i'r coronafeirws ddatgelu ein breuder, mae'r Beibl yn ein hatgoffa ein bod yn rhan o stori fwy, gan ymestyn yn ôl i'r greadigaeth ac ymlaen at greadigaeth newydd. Efallai y byddwn yn profi rhywfaint o anhrefn yn y canol ond mae gan yr awdur gwych gynllun trosfwaol na fydd yn methu ac mae'n addo gofalu am ei bobl. Ni chewch hynny gan Netflix. Dyma pam mae angen yr Ysgrhythurau arnom. Mae teitl llyfr rydw i wedi bod yn ei ysgrifennu yn cyfleu hanfod hyn: Y BEIBL: Stori sy'n gwneud synnwyr o fywyd.

- **Mae angen help arnom i wneud synnwyr o'r Beibl**

Wedi dweud hynny, a ydych chi wedi sylwi nad yw'r Beibl bob tro'n gwneud synnwyr yn hawdd? Gall fod yn eithaf cymhleth a chlymog, hyd yn oed yn gythryblus. Os ydych chi wedi profi hynny, rydych chi mewn cwmni da. Wrth i'r torfeydd wrando'n astud ar Esra yn darllen yr Ysgrhythurau roedd hi'n amlwg bod eiliadau pan oedden nhw'n ei chael hi'n ddryslyd. Felly yn ogystal â darllen y testun, aeth y Lefiaid ac eraill a oedd wedi eu hyfforddi yn y Torah allan ymhlith y dorf gan ei 'gyfieithu a'i esbonio fel bod pawb yn deall y darlleniad' (adnod 8). Dychmygwch hynny - athrawon Beiblaidd yn symud o grŵp i grŵp, teulu i deulu ac yn gofyn, 'Sut ydych chi'n ymdopi gyda'r Beibl? Oes angen unrhyw gymorth arnoch chi?' Mae'n ein hatgoffa ei bod yn iawn cael traferth gyda'r Beibl a gofyn am ychydig o help.

Heddiw, mae yna adnoddau gwych sy'n gwneud y Beibl yn fwy hygyrch. Mae'r 'Bible Project' yn America wedi darparu fideos defnyddiol iawn. Yn nes at adref, mae gan siop ar-lein Cymdeithas y Beibl lyfrau ac adnoddau a all fod o gymorth mawr. Mae un adnodd, o'r enw Cwrs y Beibl, yn helpu pobl gyffredin i wneud synnwyr o'r Beibl. Mae Cymdeithas y Beibl bellach wedi buddsoddi mewn rhifyn cwbl newydd o Gwrs y Beibl. Dros wyth sesiwn mae'n dangos sut mae'r Beibl cyfan yn ffurfio un stori fawr. Mae yna ddigon o adnoddau da i dynnu arny'n nhw i helpu i wneud synnwyr o'r Beibl.

**Cwestiwn cymhwyso:** Beth fydd eich cam nesaf i ddod yn fwy hyderus gyda'r Beibl?

### 3. MAE'R BEIBL YN EIN HELPU I FEITHRIN GWIR GYMUNED Nehemeia 8.9-12

*[Hanesyn personol]*

*Pan oeddwn yn y brifysgol, gwahoddais un o fy nghyd-chwaraewyr rygbi i ddigwyddiad Cristnogol. Ar ôl anerchiad eofn o'r Beibl, roeddwn i'n teimlo'n lletchwith ac yn meddwl tybed beth wnaeth fy ffrind nad oedd yn Gristion ohono. 'Felly beth oeddet ti'n feddwl?' gofynnais, gan baratoi fy hun am yr ateb. Ni ddaeth yr un. Yn lle, wrth imi edrych ar draws roedd fy ffrind yn crïo. Mae'r Beibl yn rhyfeddol o bwerus. Mae'n ein cyffwrdd*

*ac yn ein symud mewn ffyrdd na all unrhyw lyfr arall. Yn ddiweddarach y noson honno, rhoddodd fy ffrind ei fywyd i Iesu Grist a heddiw mae'n arwain prosiect ieuencid Cristnogol yn Llundain.*

- **Gall y Beibl ein helpu i brosesu ein hemosiynau**

Ar ôl i Esra orffen darllen, sylweddolodd yn sydyn fod y bobl wedi dechrau criö. Fe wnaethon nhw fynd mor emosiynol nes i Nehemeia ymyrryd gan geisio eu cymell allan ohono: 'Peidiwch â galaru nac wylu' ... dywedodd Nehemeia, 'Ewch, bwytwch ddanteithion ac yfych win melys.' Mae hynny'n gais anarferol i arweinydd ei wneud! O ble ddaeth eu holl emosiwn? Cofiwch, roedd yr Israeliaid yn wynebu colled fawr, aflonyddwch ac ansicrwydd ond roedd yn rhaid iddyn nhw ddal ati. Wrth i'r Beibl gael ei ddarllen roedd fel petai'r caead wedi ei godi. Fe ddaethon nhw ar draws geiriau o gysur a gobaith. Efallai eu bod hefyd wedi teimlo ymdeimlad o argyhoeddiad ac edifeirwch. Y naill ffordd neu'r llall, creodd yr Ysgrythur le diogel a oedd yn caniatáu i emosiynau ddod i'r wyneb a phethau dyfnach gael eu trafod.

Rydyn ni fel cymdeithas wedi bod trwy lawer yn ddiweddar. Rydyn ni wedi profi colled a lefelau uchel o ansicrwydd. Mae'n debyg nad ydyn ni'n sylweddoli faint rydyn ni wedi bod yn ei gadw i mewn a'r niwed a wnaed. Yng nghyd-destun cymuned, gall y Beibl ein helpu i fynegi ein hemosiynau fel rhan o broses o wella ac adnewyddu.

**Cwestiwn cymhwys:** Sut gall y Beibl ddarparu lle diogel i brosesu ein profiadau ac wynebu ein hofnau gyda'n gilydd?

*! [Hanesyn personol]*

*Roeddwn i ar alwad Zoom gyda rhai ffrindiau ac roeddem yn darllen darn o'r Beibl o lyfr y Colosiaid. Roedd yn cynnwys yr ymadrodd 'bydded i dangnefedd Crist lywodraethu yn eich calonnau' (Colosiaid 3.15). Un ar ôl y llall dechreuon ni rannu gyda'n gilydd faint roedden*

*ni'n dyheu am yr heddwch mewnol hwn yn wyneb brwydrau. Roedd rhai yn profi profedigaeth, roedd eraill wedi colli eu swyddi, ac roedd eraill yn teimlo straen mawr gydag addysg gartref. Yn fuan daeth dagrau wrth i ni ddod o hyd i le diogel a gonest i fynegi sut roeddem ni'n teimlo mewn gwirionedd.*

- **Gall y Beibl ein helpu i ddod yn fwy hael**

Mae Nehemeia 8 yn gorffen gyda dathliad, wrth i ddagrau tristwch droi yn loddosta a llawenhau. Fel y dywedodd Nehemeia: 'Llawenhau yn yr ARGLWYDD yw eich nerth.' Ymatebodd yr Israeliaid trwy roi'r Ysgrythurau ar waith a rhannu'r hyn oedd ganddyn nhw gyda'r tlawd a'r rhai mewn angen (8.10). Un peth y mae'r pandemig wedi'i ddysgu inni yw bod angen bod yn ymwybodol o boen ein cymdogion a dangos caredigrwydd, cefnogaeth a gofal tuag at ein gilydd.

Ar ôl cyfnod o aflonyddwch, profodd pobl Dduw ddyfnder newydd o gymuned wrth iddynt ymgynnull o amgylch gair Duw. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, heb os, bydd gennym reswm i grïo gyda'n gilydd a dathlu gyda'n gilydd, galaru a chwerthin. Wrth i ni wneud hynny, byddwn yn darganfod mai bregusrwydd a haelioni yw'r allweddi i gymuned ddilys, p'un ai mewn ystafell neu dros Zoom. Daw iachâd ac adnewyddiad pan fyddwn yn ymgynnull o amgylch gair Duw gyda'n gilydd.

## YMATEB

Yn y llyfr 'The Lord of the Rings' gan Tolkien, cynhelir sgwrs deimladwy. Dywed Frodo, 'Rwy'n dymuno na fyddai'r fodrwy erioed wedi dod ataf. Rwy'n dymuno na fyddai dim o hyn wedi digwydd.' Mae Gandalf yn ateb, 'Felly y mae pawb sy'n byw yn y fath amseroedd, ond nid nhw sydd i benderfynu. Y cyfan sy'n rhaid i chi benderfynu yw beth i'w wneud â'r amser a roddir i chi.' Efallai nad ydym yn dewis yr amseroedd hyn, ond gallwn wneud y gorau ohonynt trwy ymgynnull o amgylch gair Duw a phrofi adnewyddiad ysbrydol.

Diwinydd a gweinidog yw Dr Andrew Ollerton a greodd Cwrs y Beibl (Cymdeithas y Beibl) ac ef yw awdur llyfr newydd The Bible: a Story that Makes Sense of Life (Hodder & Stoughton).